| | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | **BWRDD PENSIWN** |
| DYDDIAD: | **7 MAWRTH 2022** |
| TEITL: | **POLISI SGILIAU A GWYBODAETH A CHYNLLUN HYFFORDDIANT 2022/23** |
| PWRPAS: | **I gyflwyno Polisi Sgiliau a Gwybodaeth a Chynllun Hyfforddiant 2022/23** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno a thrafod polisi Sgiliau a Gwybodaeth a Chynllun Hyfforddiant 2022/23 ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd.

1.2 Bydd y polisi a chynllun yma yn cael eu cyflwyno a'u cymeradwyo'n ffurfiol gan y Pwyllgor Pensiynau ar Fawrth 17eg 2022.

## 2. ADRODDIAD LLYWODRAETHU DA

2.1 Mae'r adroddiad Llywodraethu Da gan Fwrdd Cynghori'r Cynllun Lloegr a Chymru yn nodi nifer o argymhellion a fyddai'n gwella llywodraethu'r CPLlL, ac yn cyrraedd lefel o gydraddoldeb o ran llywodraethu ar draws cronfeydd CPLlL yng Nghymru a Lloegr.

2.2 Mae'r adroddiad Llywodraethu Da yn argymell i:

*'Gyflwyno gofyniad yn y Canllawiau i unigolion allweddol o fewn y CPLlL, gan gynnwys Swyddogion CPLlL a Phwyllgorau Pensiynau, gael y lefel briodol o wybodaeth a dealltwriaeth i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.'*

Ffocws allweddol yr adolygiad Llywodraethu Da oedd bod gan swyddogion y Gronfa, yn ogystal ag aelodau Pwyllgor lefel ddigonol o wybodaeth i allu cyflawni eu rolau priodol yn effeithiol.

*'Dylai Awdurdodau gweinyddol gyhoeddi polisi sy'n nodi eu dull o gyflwyno, asesu a chofnodi cynlluniau hyfforddi i fodloni'r gofynion hyn.'*

2.3 Mae'r Gronfa felly wedi llunio polisi er mwyn cyflawni'r gofynion yma.

## 3. POLISI SGILIAU A GWYBODAETH

Mae'r polisi drafft yn Atodiad 1 ac yn cwmpasu'r prif feysydd canlynol:

- Gofynion hyfforddiant
- Arweiniad
- Proses sefydlu
- Cynllun hyfforddiant
- Darparu hyfforddiant
- Monitro
- Adrodd

## 4. CYNLLUN HYFFORDDIANT

4.1 Mae cynllun hyfforddiant wedi ei greu ar gyfer 2022/23 yn Atodiad 2.

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Gofynnir i'r Bwrdd drafod a nodi unrhyw newidiadau i'r polisi drafft Gwybodaeth a Sgiliau a chynllun hyfforddiant 2022/23 cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Pensiynau.